Atodiad 1

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

Cynllun datgarboneiddio 2021 - 2030

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

Cynnwys

1. Rhagair
2. Cefndir a Chyd-destun
3. Ein Cynllun
4. Atodiad Un - Cynllun Gweithredu

1. RHAGAIR

Mae’r Argyfwng Hinsawdd yn un o bynciau pwysicaf ein cyfnod ac yn un y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag o yn gyflym. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru ac wedi gosod cynlluniau uchelgeisiol i’r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i chwarae ei ran o fewn Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Rydym yn hyderus y bydd y penderfyniadau a wnawn ar sut rydym yn cyfrannu at hyn yn cynnwys budd gorau y Fwrdeistref Sirol wrth eu calon a byddant mewn ymgynghoriad gyda'r bobl leol. Rydym eisoes wedi gweithio ar nifer o fentrau lleihau carbon dros y degawd diwethaf, sydd wedi sefydlu ein henw da fel arweinydd o ran darparu mentrau arbed carbon. Ers datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Medi 2019, fe sefydlwyd Bwrdd Prosiect Carbon – tasg y Bwrdd oedd datblygu cynllun datgarboneiddio i dargedu datgarboneiddio swyddogaethau’r Cyngor a hyrwyddo gwarchod a gwneud y mwyaf o'n hamgylchedd naturiol. Roedd y cynnig yn y Cyngor llawn ym mis Medi 2019 yn gosod Agenda a rhaglen waith ar gyfer creu sefydliad ‘carbon bositif’. Ein nod yw bod cyfanswm y carbon a allyrrir gan y Cyngor yn llai na chyfanswm y carbon a amsugnir gan dir a gwasanaethau sy'n perthyn i, ac yn cael eu gweithredu gan y Cyngor gymesur â sero erbyn 31 Mawrth, 2030. Yn ychwanegol at hynny rydym yn anelu at leihau allyriadau ein cadwyn gyflenwi ar y cyd gyda’n darpariaeth o wasanaethau mewnol.

Byddwn yn parhau i weithio i edrych am ffyrdd i wella ein gwasanaethau, gan roi’r ymrwymiad hwn o fod yn gyngor positif o ran carbon wrth galon pob penderfyniad. Bydd Aelodau Etholedig a Swyddogion y cyngor yn edrych yn gynyddol ar ein cymunedau a’n dinasyddion i'n helpu i gyflawni hyn, ac rydym yn gwybod y bydd y mwyafrif llethol o bobl leol sy’n frwdfrydig am eu cymunedau yn ymuno â ni yn ein gweithredoedd.

Rydym yn parhau i wynebu'r her o wneud mwy gyda llai; ac rydym yn gweithio i wella cadernid ac effeithlonrwydd ein gweithlu, yn ogystal â’n gwasanaethau. Wrth i ni wneud hyn, mae’n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gweithio yn unol â’n hymrwymiadau a’n strategaeth ddatgarboneiddio. Rydym wedi cael yr her o ymateb i effaith pandemig COVID-19 hefyd, argyfwng hollol newydd sydd wedi effeithio ar bob agwedd o'r cyngor a'n cynlluniau. Mae effaith y pandemig wedi oedi ein datblygiad o’r cynllun datgarboneiddio hwn; serch hynny, mae’r amseriad yn iawn erbyn hyn i sicrhau ein bod yn edrych tuag at ein hadferiad o bandemig Covid a'r dyfodol, a byddwn yn gwneud hyn gyda’r argyfwng hinsawdd a datgarboneiddio wrth galon ein gwaith.

Peidiwch â bod dan gamargraff, mae graddfa’r her yn enfawr, ac mae cyflawni safle di-garbon net yn gofyn am ddulliau gwahanol iawn o weithio i’n harferion presennol. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i wneud y mwyaf o gyfleoedd a buddion, gan leihau a rhannu’r risgiau gymaint â phosib. Byddwn yn gweithio gyda busnesau, y Trydydd Sector a chymunedau lleol i sicrhau ein bod ni oll yn gweithio i gyflawni dyfodol cynaliadwy a di-garbon.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'n cymunedau lleol, y mae'r mwyafrif ohonynt yn frwdfrydig dros gymryd cyfrifoldeb i ofalu am eu cymunedau a'u hamgylchedd lleol. Mae pob gweithred bositif, boed yn fach neu'n fawr, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol. Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad di-garbon erbyn 2030, ac i wneud ein Bwrdeistref Sirol yn le gwell.

Y Cyng. David Bithell

Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ian Bancroft

Y Prif Weithredwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

CBSW yn datgan argyfwng hinsawdd ac ecolegol

Mae’r Argyfwng Hinsawdd yn un o bynciau pwysicaf ein cyfnod ac yn un y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag o yn gyflym. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd yng Nghymru ac wedi gosod cynlluniau uchelgeisiol i’r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Datganodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol hefyd ym mis Medi 2019, gan ymrwymo Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i fod yn gyngor di-garbon net erbyn 2030. Yn unol â’r datganiad hwn, ymrwymodd y Cyngor at ddatblygu Cynllun Datgarboneiddio, a fydd yn targedu datgarboneiddio gweithrediadau'r Cyngor a hyrwyddo diogelu a gwella ei amgylchedd naturiol. Bydd y Cynllun yn ffurfio sail gyfannol ar gyfer cyflawni datgarboneiddio ledled y sefydliad dros y 10 mlynedd nesaf, a dyma fydd y sylfaen ar gyfer adrodd a diweddaru ar gynnydd yn flynyddol.

Siwrnai a chynnydd CBSW hyd yma

Yn ei hanfod, mae safle presennol y Cyngor mewn perthynas â lleihau allyriadau carbon yn gadarnhaol. Rydym wedi nodi datgarboneiddio fel blaenoriaeth ar gyfer y sefydliad, a thrwy ein datganiad o argyfwng hinsawdd ac ecolegol, byddwn yn mewnosod datgarboneiddio i weithrediadau a pholisïau’r cyngor i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod o fod yn niwtral o ran carbon.

Nid yw lleihau Carbon yn gysyniad newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, oherwydd dros y degawd diwethaf rydym wedi sefydlu ein hunain fel arweinydd wrth gyflawni mentrau arbed carbon. Mae hyn y golygu bod nifer o’r ‘cyflawniadau cyflym’ wedi cael eu bodloni, felly mae angen i ni geisio mwy o ddatrysiadau arloesol a phellgyrhaeddol.

Mae enghreifftiau o brosiectau yr ydym eisoes wedi eu gweithredu’n llwyddiannus wedi’u hamlygu isod:

- **PV Solar Domestig** Yn 2011/12 fe aethom ati i osod paneli solar ar 2675 o eiddo’r cyngor. Mae hyn yn arbed arian i bob tenant ar eu biliau trydan ac mae'r Cyngor yn derbyn taliad Tariff Cyflenwi Trydan gan ein cwmni cyfleustodau am bob chwarter, am gyfanswm o 25 mlynedd. Bydd yr incwm hwn yn mynd tuag at wella ein heiddo ymhellach. Mae cyfanswm yr allyriadau carbon a arbedwyd drwy gynhyrchu’r ynni hwn yn 14,974,806kg.
- **PV Solar Annomestig** - Yn dilyn llwyddiant y prosiect solar domestig, rydym wedi gosod paneli ar bymtheg o’n hysgolion, dwy swyddfa a dwy ganolfan adnoddau.
- **Ffordd Rhuthun**- Gosod PV ar raddfa fawr o 250kWh - gan ddarparu dros 40% o ddefnydd ynni ar gyfer ein swyddfa dai ganolog.

- **Fferm Solar Legacy** – Un o brosiectau arddangos y Cyngor yw gosod Fferm Solar fawr 2.6MW yn Legacy, lle gosodwyd oddeutu 8800 panel. Hyd at ddiwedd llynedd roedd y Fferm Solar wedi cynhyrchu 10,992,900 kwh. Y Fferm Solar oedd y cyntaf yng Nghymru i gael ei hadeiladu, ei gweithredu a'i chynnal gan yr awdurdod lleol. Mae'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu gan y prosiect hwn yn cael ei ail-fuddsoddi mewn prosiect arbed ynni a chynlluniau ynni adnewyddadwy. Bydd y cynhyrchiant incwm drwy'r Tariffau Bwydo i Mewn, yn ffurfio sail i'n cyllideb buddsoddi i arbed carbon barhaus.
- **Goleuadau Stryd** – Prosiect uchelgeisiol, sydd wedi gweld disodli bob golau stryd ledled y Fwrdeistref Sirol i LED, gan gynhyrchu arbedion carbon ac ariannol sylweddol.
- **Uwchraddio Goleuadau LED** - Mae'r gwaith parhaus o ddisodli hen oleuadau stryd a rhai aneffeithlon i LED wedi cael ei gyflwyno i ysgolion a swyddfeydd. Mae arbedion carbon ac ariannol uniongyrchol yn deillio o'r prosiectau hyn, ac yn parhau i fod yn gynlluniau llwyddiannus i ddatgarboneiddio ein hadeiladau.
- **Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan** - un o awdurdodau lleol arweiniol Cymru i osod Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan mewn meysydd parcio cyhoeddus. Rydym wedi gosod pwyntiau gwefru mewn pedwar ar ddeg maes parcio cyhoeddus, a saith yn swyddfeydd y Cyngor. Rydym nawr yn gallu hyrwyddo ein bod wedi gosod y Gwifriwr 100kw cyntaf yng Ngogledd Cymru, sydd â'r capasiti i wefru car i 80% dan 30 munud. Rydym hefyd wedi sefydlu canolbwynt gwefru yng nghanol y dref, gydag uned gwefru cyflym a thair gorsaf gwefru cyflym.
- **Gwres Adnewyddadwy** – Cychwynnodd y Cyngor ar brosiect i osod Boeler Biomas mawr yn Nhwr Rhydfudr ar ystâd ddiwydiannol Wrecsam. Mae'r system hon yn darparu gwres carbon isel i'r adeilad mawr hwn, ac yn cynhyrchu incwm i'r Cyngor trwy'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy.
- **Fflyd Drydan** – Mae'r Cyngor yn berchen ar gyfres o gerbydau trydan i'w defnyddio gan staff gyda nifer ychwanegol yn barod i gael eu danfon. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi darparu dewis amgen gwych i staff i'w defnyddio i deithio i gyfarfodydd.
- **Gwastraff ac ailgylchu** - Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed dros yr 20 mlynedd diwethaf i wella ein ffigyrau ailgylchu, o gasgliadau ymyl palmant, a'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref. Rydym wedi cyflawni ein targedau statudol i gyd ers 2010, ac wedi bod ymysg yr awdurdodau lleol i berfformio orau yng Nghymru. Mae ein targedau ailgylchu wedi cael eu heffeithio gan Covid-19, serch hynny, rydym yn parhau i weithio tuag at ein targed o ailgylchu 70% erbyn 2025.

Yr angen i wneud mwy

Er gwaethaf y gwaith gwych sydd wedi cael ei wneud hyd yma, rydym yn parhau i allyrru cyfeintiau mawr o CO2 bob blwyddyn; ac o ganlyniad mae angen buddsoddiad ar raddfa fawr arnom yn ogystal â chapasiti adnoddau er mwyn lleihau'r allyriadau ymhellach. Mae'r allyriadau pennaf yn dod o'n Hadeiladau (e.e. ysgolion a swyddfeydd) yn ogystal â gweithrediadau Cludiant.

Serch hynny, mae meysydd sydd angen i ni eu hystyried. Er mwyn gweithio tuag at fod yn ddi-garbon erbyn 2030, mae angen i ni ddeall ein hallyriadau hefyd, o'n gweithgareddau caffael, a nodi cyfleoedd i atafaelu ein hallyriadau (e.e. trwy ein coetiroedd a'n mannau agored). Rydym yn y broses o nodi'r sectorau hyn, a fydd yn ddarn sylweddol o waith i'r Cyngor ac o fudd enfawr; bydd yn caniatáu i ni fagu dealltwriaeth lawnach o raddfa allyriadau carbon y Cyngor, ac o ganlyniad, nodi'r camau gweithredu a'r cyfleoedd buddsoddiad mwyaf priodol.

Gwaith ac adfer rhanbarthol

Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ar y flaenoriaeth ranedig, fyd-eang hon. Mae gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BARhGC) a Chynghrair Merswy a'r Ddyfrdwy ffrydiau gwaith allweddol sydd yn ceisio gwneud gwelliannau sylweddol yn y maes hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda'r partneriaid hyn i sicrhau bod ein amcanion sefydliadol yn cael eu hadlewyrchu yn y blaenoriaethau rhanbarthol (ac i'r gwrthwyneb). Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid y sector cyhoeddus hefyd, trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd rhwng Wrecsam a Sir y Fflint, a'u gwaith cymunedau gwydn parhaus (sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y thema ddatgarboneiddio).

Mae'r thema Lleihau Carbon yn cael ei chynnwys yn helaeth yn rhaglen waith sawl ffrwd waith rhanbarthol, megis:

- Mae gan y BUEGC flaenoriaethau, gan gynnwys: gwella effeithlonrwydd ynni yn y stoc dai ac adeiladau; newid i gludiant carbon isel; a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer technolegau ynni carbon isel ledled y rhanbarth.
- Mae BARhGC wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen i ystyried sut y gallant ychwanegu gwerth i'r cyfoeth o weithgareddau sy'n digwydd ar draws y rhanbarth i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Maent yn cefnogi'r pedair thema a nodwyd uchod, a byddant yn chwarae rôl allweddol wrth gydlynu, diddymu rhwystrau a rhannu gwybodaeth/arfer orau yn y maes hwn
- Mae Cynghrair Merswy a'r Ddyfrdwy wedi gweithio'n gydweithredol i ddatblygu nifer o argymhellion uchelgeisiol a fyddai'n cyfrannu'n sylweddol i ddatgarboneiddio ledled y rhanbarth; gan gynnwys cynigion ynghylch prosiectau ynni adnewyddadwy a chysylltiadau teithio cynaliadwy gwell. Caiff y cynigion hyn eu cyflwyno ar gyfer buddsoddiad posib gan Lywodraethau Cymru a'r DU.
- Mae BGC Wrecsam a Sir y Fflint wedi ymuno i weithio ar 'wydnwch cymunedol' ac 'adfer' yn dilyn pandemig Covid-19. Mae pedair prif thema i'r gwaith hwn:
  - plant a phobl ifanc;
  - tlodi ac anghydraddoldeb;
  - iechyd meddwl; ac
  - yr amgylchedd.

Drwy weithio ar y cyd gyda'n partneriaid Rhanbarthol a Chenedlaethol, ac mewn cydweithrediad agos gyda sefydliadau partneriaeth gallwn effeithio fwyaf ar newid hinsawdd a gweithio tuag at ein huchelgais o fod yn sector cyhoeddus di-garbon erbyn 2030. Gyda'n partneriaid rhanbarthol, byddwn yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddarparu cymorth ac adnoddau i'n galluogi ni i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwella bioamrywiaeth, a mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd.

Mae Cynllun y Cyngor 2020-23 eisoes yn cynnwys nifer o dargedau yn ymwneud â'n gwaith datgarboneiddio, a byddwn yn adeiladu ar 'rhain yn y blynyddoedd nesaf:

- Lleihau Allyriadau Carbon o'n hadeiladau o 4% bob blwyddyn.
- Cynyddu ein cynhyrchiant o ynni o ffynonellau adnewyddadwy o'n hasedau o 5% bob blwyddyn.
- Cynyddu'r nifer o gerbydau trydan yn ein fflyd o bymtheg cerbyd bob blwyddyn, wrth i ni ddisodli'r hen fflyd.

3. EIN CYNLLUN

Bydd y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio yn gosod cyfeiriad a rhaglen lefel uchel o waith ar gyfer creu sefydliad 'positif o ran carbon' dros y 10 mlynedd nesaf, gyda'r nod trosfwaol o fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030. Bydd y gwaith hwn yn bennaf yn cael ei lywodraethu gan y Bwrdd Carbon presennol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys Prif Swyddogion Tai a'r Economi, yr Amgylchedd a Thechnegol, ac arweinwyr adran o Asedau, yr Amgylchedd, Cyllid, Cynllunio, Caffael a Lleihau Carbon, yn ogystal ag Aelodau Etholedig. Bydd y Cynllun hwn yn cyfrannu at flaenoriaeth Cynllun y Cyngor o 'Wella'r Amgylchedd', er ei fod yn cael ei gydnabod bod y blaenoriaeth hwn ar gyfer y Cyngor i gyd, ac nid oes modd i adrannau neu wasanaethau unigol fynd i'r afael ag o ar eu pen eu hunain.

Pedair thema allweddol a beth a olygir ganddynt

Fel rhan o ddatblygiad cychwynnol y cynllun datgarboneiddio, nodwyd pedair thema allweddol. Y rheswm dros hyn, yw bod y meysydd hyn eisoes wedi cael eu hamlygu gan Lywodraeth Cymru fel meysydd allweddol yn y sector cyhoeddus sydd â'r allyriadau carbon uchaf yng Nghymru. Drwy ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol, bydd y cynllun datgarboneiddio'n canolbwyntio'n bennaf ar y penawdau categori canlynol, er dylid nodi wrth i'r cynllun ddatblygu, mae'n debygol y bydd meysydd eraill, megis llygredd ael, addysg mewn ysgolion, rheoli gwastraff, a fydd yn ffurfio rhan o'r broses hon. Ein pedair thema yw:-

Adeiladau

Dan thema adeiladau, gallwn adeiladau ar y gwaith o leihau carbon sydd ar waith ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn parhau i weithio ymhellach tuag at leihau ein hallyriadau o un flwyddyn i'r llall yn ein hysgolion, swyddfeydd, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, ac ati. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar brosiectau megis uwchraddio goleuadau LED, Systemau Rheoli Adeiladau, gosod pympiau gwres a phrosiectau ynni adnewyddadwy, megis paneli ffotofoltäig (PV). Rydym yn gobeithio drwy buddsoddiad yn ein stoc dai, byddwn yn gallu helpu i gyflawni adeiladau carbon isel a di-garbon yn y dyfodol.

Cludiant a Symudedd

Bydd buddsoddi yn ein rhwydwaith trafnidiaeth ac ehangu ein fflyd o gerbydau trydan o gymorth wrth gyrraedd ein targedau hefyd. Ar yr un pryd, bydd cynyddu'r nifer o bwyntiau Gwefru Cerbyd Trydan sy'n cael eu gosod ledled y Fwrdeistref Sirol, yn lleihau ein allyriadau o'n fflyd a theithio ar gyfer busnes, yn ogystal ag annog pobl i fuddsoddi mewn cerbydau trydan. Bydd y cynigion hyn, ynghyd â gwella cynlluniau teithio cynaliadwy gwyrdd, a llwybrau teithio llesol, yn cael effaith sylweddol wrth helpu i leihau ein hallyriadau carbon cyffredinol.

Defnydd Tir

Bydd y maes gwaith hwn yn defnyddio ein hasedau ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy, a hefyd ar gyfer buddsoddi mewn plannu coetiroedd a blodau gwyllt, yn ogystal â dal a storio carbon, a thrwy ddefnyddio ein hasedau i osod ein hallyriadau carbon yn erbyn ffynonellau traddodiadol. Bydd gweithio gyda'n timau cynllunio ac ecoleg yn allweddol wrth ddatblygu a datblygu'r prosiectau penodol hyn. Bydd y polisi cynllunio'n cael effaith uniongyrchol ar leihau allyriadau ledled y fwrdeistref sirol hefyd.

Caffael

Bydd hwn yn faes gwaith hollbwysig, oherwydd y rhagwelwyd gan Lywodraeth Cymru bod dros 60% o allyriadau carbon y sector cyhoeddus yn deillio o gaffael nwyddau a gwasanaethau. Byddwn yn gofyn am ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru a bydd angen i ni weithio gyda'n swyddogion caffael i sicrhau ein bod yn mewnosod targedau carbon i'r broses gaffael a, lle bo'n bosib, cefnogi cyflenwyr a busnesau lleol a rhanbarthol.

Rhestr lawn o'n Camau Gweithredu a themâu allweddol sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Yn y broses o sefydlu ein camau gweithredu a blaenoriaethau allweddol, cynhaliwyd cyfran sylweddol o ymgynghoriad ar gynllun datgarboneiddio drafft. Cynhaliwyd arolwg ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2020, lle cafwyd dros 500 o ymatebion. Gofynnwyd i'r cyhoedd am eu barn ar y camau gweithredu arfaethedig dan y pedair thema, yn ogystal â chwestiynau ar syniadau ychwanegol ar sut y gall y Cyngor gyrraedd ei nod. Roedd y mwyafrif helaeth o adborth yn gadarnhaol ac yn cefnogi'r camau gweithredu arfaethedig yn y cynllun drafft.

Yn ychwanegol at yr arolwg hwn ar-lein, bu ymgysylltiad gydag aelodau etholedig, a chynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus (ar-lein) i gasglu barn a syniadau ymhellach. Ystyriwyd yr ymatebion i'r arolwg, ymgysylltiad aelodau a'r digwyddiad i ddatblygiad pellach y cynllun, ac maent yn allweddol i sicrhau ein bod yn gallu gweithio gydag unigolion a chymunedau i gyflawni ein cynllun. Dylai'r ymarferion ymgysylltu hysbysu cychwyn deialog parhaus gyda'r cyhoedd drwy gydol oes y cynllun gweithredu hwn a thu hwnt; wrth i ni gyd weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â newid hinsawdd, a Chymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd -eang.

Bydd y cynllun yn gynllun gweithredu a fydd yn esblygu ac yn ymatebol, y byddwn yn ei fonitro ac yn ei adolygu i gofnodi cynnydd, sicrhau effeithiolrwydd a chynyddu ein hymdrechion lle bo'r angen (yn sgil tystiolaeth bellach, datblygiadau rhanbarthol/cenedlaethol neu gyfleoedd cyllid). Mae'n bwysig ein bod ni'n ddigon

uchelgeisiol i fod yn arloesol yn ein hymdrechion i wella, ac o ganlyniad, efallai bydd prosiectau neu weithgareddau y byddwn yn eu dilyn, eu hadolygu a'u newid neu eu terfynu yn y pendraw. Mae'n hollbwysig hefyd ein bod yn atebol ac yn dryloyw yn ein gwaith a'n cynnydd, ac o ganlyniad bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gyhoeddi.

Blaenoriaethau allweddol ar gyfer llwyddo

Mae Atodiad Un yn rhoi manylion ar rai gweithgareddau lefel uchel y byddwn yn ymgymryd â nhw er mwyn dangos cynnydd gyda'r gwaith pwysig hwn. Serch hynny, mae nifer o flaenoriaethau allweddol a fydd yn pennu ac yn ategu at lwyddiant cyffredinol y cynllun. Sef:

- Deall ein safle rŵan

Wrth i ni edrych yn fanwl ar bedair thema allweddol y cynllun, rydym yn gallu gweld yn glir ac yn fanwl y carbon rydym yn ei allyrru o'n hadeiladau a'n sectorau cludiant. Serch hynny, ni wnaethon greu sylfaen o'n hallyriadau o ddefnydd tir, ac allyriadau o'r gadwyn gyflenwi (h.y. caffael), a bydd hyn yn hollbwysig i ni yn nhermau gosod rhaglen a thargedau manwl ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae angen i ni sicrhau fod gennym system gadarn ar gyfer mesur llinell sylfaen ein hallyriadau carbon yn erbyn pob thema, ac y gallwn fonitro'r rhain yn flynyddol. Mae hyn yn bwysig, nid yn unig ar gyfer mesur allyriadau carbon yn barhaus yn erbyn ein sylfaen, ond bydd yn hanfodol hefyd mewn meincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar fapio'r allyriadau hyn, a chyn gynted ag y byddwn yn gallu cyflwyno darlun clir a chryno o allyriadau carbon Cyngor Wrecsam, ac yn bwysicach, amlygu'r meysydd sy'n allyrru'r lefelau uchaf o garbon. Bydd hyn yn hysbysu ein cynllun gweithredu ymhellach, ac yn ein galluogi i fireinio ein gweithrediadau a'n hamserlenni.

- Nodi adnoddau ar bob lefel, yn ogystal ag ymrwymiad ariannol

Mae'n hollbwysig bod pob maes busnes y cyngor a phob gwasanaeth yn ymgysylltu â'r rhaglen ddatgarboneiddio. O ganlyniad, bydd yn bwysig bod arweinydd corfforaethol wedi'i ddiffinio'n glir â digon o adnoddau, a strwythur llywodraethol ar waith i sicrhau bod y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau presennol yn unol â'r rhaglen hon. Yn ychwanegol at hynny, ni fedrwn gilio o'r ffaith y bydd angen buddsoddiad sylweddol er mwyn bodloni uchelgeisiau'r cynllun hwn. Byddwn yn parhau i roi pwysau ar y llywodraeth ar gyfer cyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn, ceisio cyfleoedd i wneud cais am gyllid (yn unigol neu gyda phartneriaid), a byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn dechrau newid y ffordd a ddefnyddiwn ein cyllidebau presennol i sicrhau ein bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith hwn.

- Prif ffrydio ym mhopeth a wnawn, ac wrth wneud penderfyniadau.

Cefnogi prif ffrydio datgarboneiddio drwy sicrhau bod pob maes gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses, a bod ganddynt yr adnoddau i gymryd perchnogaeth dros gyflawni amcanion allweddol a phrosiectau o fewn y Cynllun Gweithredu datgarboneiddio. Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i ddatgarboneiddio wrth ddatblygu polisïau a gwneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth. Bydd hyn yn gofyn am newid diwylliannol drwy gydol y sefydliad, yn ogystal ag ystyriaeth o sut rydym yn diwygio prosesau gwneud penderfyniadau presennol, i sicrhau bod effaith ar garbon a newid hinsawdd yn ystyriaeth ganolog.

Rhestr lawn o’n Camau Gweithredu a themâu allweddol sydd wedi’u cynnwys yn Atodiad 1.

ATODIAD UN

Camau Gweithredu Trosfwaol

Ynghyd â chamau gweithredu penodol o fewn y pedair thema, bydd angen gweithgareddau allweddol i gefnogi a llywio cynnydd gyda'r gwaith hwn. Bydd y camau gweithredu hyn yn hollbwysig i ategu at lwyddiant ymhob agwedd o'r cynllun.

Bydd ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar:

- **Gosod llinell sylfaen ar gyfer allyriadau carbon ledled meysydd gwasanaeth** – Gan ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru**,** mae'n hanfodol ein bod yn deall ein safle presennol, er mwyn nodi meysydd allweddol ar gyfer newid, ac i ddeall ein cynnydd.
- **Addysg ac Ymgysylltiad** – gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu gydag ysgolion, cymunedau, busnesau a staff i rannu syniadau a magu dealltwriaeth am ddatgarboneiddio.
- **Gweithio mewn partneriaeth** - byddwn yn parhau i fod yn bartner allweddol ledled Gogledd Cymru ac ardal Cynghrair Merswy a'r Ddyfrdwy; rhannu arferion da a chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd i ychwanegu gwerth a chynyddu buddion ein gwaith.
- **Lobïo** – mae'n hanfodol fod cefnogaeth ddeddfwriaethol a chefnogaeth ariannol sylweddol gan lywodraethau Cymru a'r DU i gyflawni newid gwirioneddol a pharhaol.
- **Codi statws datgarboneiddio yn y broses o wneud penderfyniadau** - bydd sicrhau bod allyriadau carbon a secwestriad yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau o fewn CBSW yn bwysig er mwyn sicrhau fod gennym ddull 'un cyngor' o weithio, ac yn gwneud y mwyaf o bob cyfle i wella. Byddwn yn mapio cyfleoedd allweddol i fireinio ein prosesau o wneud penderfyniadau fel blaenoriaeth.
- **Nodi cyfleoedd i gynyddu capasiti sefydliadol i gefnogi a chyfrannu at y gwaith hwn** – mae sicrhau bod adnoddau a chapasiti wedi'u nodi ar y lefel gywir yn bwysig; yn ogystal â chyfranogiad pob adran.
- **Sicrhau rhaglen gadarn ar gyfer monitro a gwerthuso** - bydd hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau ein bod yn monitro effeithiau prosiectau a chamau gweithredu, ac yn gallu bod yn hyblyg ac ymatebol wrth i ni ddangos cynnydd tuag at darged 2030.

Adeiladau

Mae gwaith sylweddol i'w wneud i wella'r adeiladau mae Cyngor Wrecsam yn berchen arnynt ac yn eu meddiannu ar hyn o bryd; yn ogystal â gwaith i ystyried ein dull o weithio mewn perthynas ag adeiladau newydd a'r dyfodol

Bydd ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar:

- **Monitro adeiladau a'u targedu** - monitro, dadansoddi ac adolygu defnydd ynni yn rheolaidd i sicrhau bod camau lliniaru priodol ar waith
- **Ymgyrchoedd newid ymddygiad** - i addysgu a hysbysu staff, a dylanwadu ymddygiad cadarnhaol yn ein hadeiladau
- **Gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau** – mesurau effeithlonrwydd ynni megis inswleiddio gwell, disodli ffenestri, goleuadau LED, ac ati, fel rhan o gynlluniau ailwampio mawr, sydd wedi'u hariannu drwy fuddsoddiad cyfalaf a thrwy ein cyllideb Buddsoddi Carbon i Arbed
- **Dylunio ac ailwampio adeiladau ar gyfer gweithrediad rhad-ar-ynni** – Rydym angen sicrhau bod adeiladau newydd a gwaith ailwampio mawr yn cael eu dylunio gan ganolbwyntio ar ddefnydd rhad-ar-ynni a darparu arian cyfalaf ychwanegol er mwyn cyflawni hyn.
- **Gwresogi Adeiladau gydag ynni adnewyddadwy** – Rydym angen dylunio adeiladau newydd gyda systemau ynni adnewyddadwy o'r dechrau, a datblygu rhaglen ar gyfer gosod gwres ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau presennol.

Camau gweithredu	Cyswllt i Gynllun y Cyngor*	Mesurau llwyddiant arfaethedig	Dyddiad cychwyn targed	Amcangyfrif o hyd	Adrannau/partneriaid allweddol	Cost / Budd
Datblygu cynllun prosiect manwl wedi'i gydlynu ar gyfer uwchraddio ysgolion ac adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys: Goleuadau LED, systemau rheoli adeiladau, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, mesuryddion clyfar a storfa fatris	EMRC IE	Nifer o adeiladu i'w cwblhau bob blwyddyn % adeiladu i'w cwblhau bob blwyddyn	Blwyddyn Un (gyda gwaith eisoes yn mynd rhagddo)	Rhaglen barhaus o tua 8 mlynedd	Rheoli Cyfleusterau Addysg Ysgolion Tîm Carbon	Cost Uchel / Budd Uchel
Datblygu a chyflwyno manyleb newydd i leihau allyriadau carbon a chynyddu cyfradd Tystysgrif Perfformiad Ynni ar	EMRC IE ES	Datblygu a chytuno ar fanyleb Nifer o dai gyda chyfradd uwch	Blwyddyn Un	Rhaglen barhaus o	Tai Llywodraeth Cymru	Cost Uchel / Budd Uchel

gyfer stoc dai'r Cyngor, gan gynnwys archwilio technolegau newydd.		% o dai gyda chyfradd uwch Nifer o / % o dai sy'n bodloni manyleb newydd		tua 3 blynedd	Tîm Carbon	
Datblygu a chyflwyno manylebau newydd ar gyfer prosiectau adeiladau o'r newydd ac ailwampio i leihau allyriadau carbon; sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu technoleg a gwelliannau newydd	EMRC IE	Datblygu a chytuno ar fanyleb % o adeiladau sy'n cydymffurfio â'r fanyleb % o brosiectau ailwampio sy'n cydymffurfio â'r fanyleb	Blwyddyn Un	Rhaglen barhaus sy'n effeithio ar adeiladau newydd a phrosiectau ailwampio	Asedau Cynllunio	Cost Ganolig / Budd Canolig
Parhau i ddarparu rhaglenni ar draws y sir i helpu i ddileu tlodi tanwydd drwy ddarparu ystod o fesurau arbed ynni, megis inswleiddio a chynlluniau gwresogi effeithlon (e.e. rhwydweithiau gwres) i aelwydydd preifat	IE ES	Nifer y cartrefi y gwnaed gwelliannau iddynt	Blwyddyn Un (gyda gwaith eisoes yn mynd rhagddo)		Asedau Tai Cynllunio	Cost Uchel / Budd Uchel

<u>Symudedd a Chludiant</u>

Bydd rhan sylweddol o'r cynllun yn cyfeirio at yr allyriadau carbon y byddwn yn eu cynhyrchu drwy gludiant. Mae hyn yn cynnwys y ffordd mae ein gweithlu'n teithio, y ffordd rydym yn cludo nwyddau a gwasanaethau; y cerbydau rydym yn eu defnyddio i gynnal ein swyddogaethau gweithredol, a gwasanaethau cludiant rydym yn eu darparu i'r cyhoedd hyd yn oed.

Bydd ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar:

- **Siwrneiau a wneir gan ein cerbydau fflyd** - mae hyn yn cynnwys pob cerbyd mae'r Cyngor yn berchen arno neu'n ei brydlesu i gynnal ei weithgareddau (e.e. faniau, cerbydau casglu gwastraff).

- **Siwrneiau a wneir gan y gweithlu at ddibenion busnes** – Pan mae gofyn i swyddogion deithio ledled y sir er mwyn cyflawni eu rolau, byddwn yn ystyried cyfleoedd ar gyfer lleihau milltiroedd yn gyffredinol, yn ogystal â ffyrdd i sicrhau nad yw siwrneiau'n cynhyrchu allyriadau carbon.
- **Gwasanaethau Cludiant sy'n cael eu darparu i'r cyhoedd** - Er nad yw CBSW yn darparu cludiant cyhoeddus, byddwn yn ceisio defnyddio ein partneriaeth i ddylanwadu newid cadarnhaol o fewn y sector, ac ystyried ffyrdd i leihau allyriadau carbon o'r gwasanaethau hynny rydym yn eu comisiynu (e.e. cludiant ysgol)
- **Teithio Llesol** - bydd gwella ein hisadeiledd teithio llesol, a chynyddu cyfleoedd ar gyfer llwybrau cerdded a beicio diogel yn hanfodol ar gyfer lleihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Yn ychwanegol at hynny, bydd gwaith yn cael ei wneud i newid arferion ac ymddygiad, fel bod rhagor o bobl yn ystyried teithio llesol fel eu prif ddull o gludiant ar gyfer siwrneiau allweddol.
- **Goleuadau stryd** - sicrhau ein bod yn defnyddio goleuadau'n effeithlon o ran ynni, yn ogystal â chymunedau eraill yn y gymuned.

Camau gweithredu	Cyswllt i Gynllun y Cyngor	Mesurau llwyddiant arfaethedig	Dyddiad cychwyn targed	Amcangyfrif o hyd	Adrannau/partneriaid allweddol	Cost / Budd
Adolygu pob cerbyd sy'n perthyn i'r Cyngor, eu defnydd cyfredol ac arfaethedig – er mwyn pennu cyfleoedd i newid, effeithlonrwydd a newid i gerbydau gydag Allyriadau Isel Iawn	EMRC IE	Datblygu cynllun â chamau % o gerbydau'r Cyngor ag allyriadau isel iawn	Blwyddyn 1	Rhaglen barhaus o tua 6 blynedd	Pob Adran y Cyngor	Cost Ganolig / Budd Canolig
Datblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer trosglwyddo cerbydau mawr sy'n perthyn i'r Cyngor i rai o Allyriadau Isel Iawn	EMRC IE	Nifer o gerbydau sydd wedi'u trosglwyddo % o gerbydau mawr sydd wedi'u trosglwyddo	Blwyddyn 3	Rhaglen barhaus o tua 5 mlynedd	Adran yr Amgylchedd a Thechnegol Tai	Cost Uchel / Budd Canolig
Paratoi cynllun teithio cynaliadwy ar gyfer milltiroedd busnes, gan gynnwys lleihau'r angen i deithio; cynyddu dewisiadau teithio llesol; cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan i'w rhannu at ddibenion busnes	IE EMRC	Lleihau milltiroedd busnes Lleihau ein defnydd ein hunain o gerbydau	Blwyddyn 1	Rhaglen barhaus o tua 3 blynedd	Uwch Dîm Arweinyddiaeth AD Pob adran	Cost Isel / Budd Canolig
Ceisio cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid i alluogi rhagor o arloesi yn y sector cludiant cyhoeddus, a chymell	DE IE EMRC	Cynnydd yn y nifer o gerbydau allyriadau isel	Blwyddyn 1	Rhaglen barhaus o	Amgylcheddol a Thechnegol	Cost Uchel / Budd Uchel

newid i fflyd wyrdd (gan gynnwys y siwrneiau hynny dan gontract CBSW e.e. cludiant ysgol)		sydd ar gael ar gyfer cludiant cyhoeddus		tua 5 mlynedd	Partneriaid cludiant rhanbarthol a chenedlaethol	
Datblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer gwella a chynyddu isadeiledd teithio llesol ledled y Fwrdeistref Sirol, gynnwys llwybrau, storfeydd, cyfleusterau gwefru a llogi addas	IE EMRC	Nifer o gynlluniau teithio llesol a ddilynwyd Nifer o asedau mewn perthynas â theithio llesol sydd ar gael	Blwyddyn 1	Parhaus am oes y cynllun	Amgylcheddol a Thechnegol	Cost Ganolig / Budd Uchel
Cynnal adolygiad o oleuadau ar y priffyrdd, tynnu goleuadau pan fo'n briodol neu eu huwchraddio i LED	IE	% o oleuadau'r priffyrdd sy'n LED	Blwyddyn 1	Rhaglen barhaus o tua 3 blynedd	Amgylcheddol a Thechnegol	Cost ganolig / Budd Canolig

Defnydd Tir

Mae'r ffordd mae'r Cyngor, ei bartneriaid a defnydd y cyhoedd o dir yn y fwrdeistref sirol yn cael cryn effaith ar ein hallyriadau carbon, ac o ganlyniad yn newid y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio a'i ddatblygu yn elfen hanfodol o'n cynllun datgarboneiddio.

Bydd ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar:

- **Newid yr ynni a ddefnyddiwn ac a gynhyrchwn** - gan gynnwys cynyddu ein defnydd ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Yn ychwanegol at hynny, byddwn yn defnyddio ein Asesiad Ynni Adnewyddadwy i ecsbloetio'r cyfleoedd mwyaf buddiol o ddefnyddio ein hasedau tir i gynhyrchu ynni adnewyddadwy
- **Defnyddio ein mannau agored gwyrdd** - mae angen i'n hagwedd tuag at ddefnyddio mannau agored sy'n perthyn i'r Cyngor gael ei fireinio i sicrhau ei bod yn diddymu'r posibilrwydd o allyrru carbon, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i wella bioamrywiaeth**.**
- **Cefnogi cyfleoedd ar gyfer plannu coed a choetiroedd** – er mwyn atafaelu allyriadau carbon, mae angen buddsoddiad i gynyddu ein stoc goed a choetiroedd. Mae hyn yn dod â buddion ychwanegol ar gyfer rheoli llifogydd, ond mae hyn yn dod gyda chyfrifoldebau ac atebolrwyddau ychwanegol, ac mae angen digon o adnoddau.

- **Sicrhau bod datblygwyr yn defnyddio tir yn briodol trwy ein cyfrifoldebau cynllunio** - datblygu a hyrwyddo polisïau a chanllawiau cynllunio sy'n cefnogi ein siwrnai datgarboneiddio, ac yn gosod cyfrifoldeb ar dirfeddianwyr a datblygwyr i leihau allyriadau, a gosod allyriadau yn erbyn gweithredoedd positif o ran carbon.

Camau gweithredu	Cyswllt i Gynllun y Cyngor	Mesurau llwyddiant arfaethedig	Dyddiad cychwyn targed	Amcangyfrif o hyd	Adrannau/partneriaid allweddol	Cost / Budd
Datblygu Cynllun i gynyddu'r cyfanswm o ynni a ddefnyddiwn o ffynonellau adnewyddadwy; a chynyddu'r cyfanswm o ynni a gynhyrchwn o ystod o ffynonellau adnewyddadwy.	IE	% o ynni a gyflenwir i CBSW o ffynonellau adnewyddadwy Cyfanswm o ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy	Blwyddyn 1	Parhaus am oes y cynllun	Tîm Carbon	Cost Uchel / Budd Uchel
Datblygu strategaeth mannau agored sy'n cefnogi ein hymrwymiadau datgarboneiddio ac yn sicrhau dewisiadau ar gyfer bioamrywiaeth ehangach ledled y sir	IE	Y Strategaeth a ddatblygwyd ac y cytunwyd arni	Blwyddyn 1	Tua blwyddyn	Amgylcheddol a Thechnegol Asedau Tai Cynllunio	Cost Isel / Budd Uchel
Llunio Cynllun Isadeiledd Gwyrdd gyda chanllawiau a chefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru, a fydd yn nodi'r mannau gwyrdd mwyaf amlbwrpas yn y Fwrdeistref Sirol i'w diogelu a'u gwella. Bydd hyn yn dilyn mabwysiadu'r CDLl.	IE	Y cynllun a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno	Blwyddyn 1	Tua 2 flynedd	Cynllunio Yr Amgylchedd Asedau Cyfoeth Naturiol Cymru Llywodraeth Cymru	Cost Isel / Budd Canolig
Datblygu Cynllun ar gyfer cynnydd mewn plannu coed, a chreu a datblygu coetiroedd a dolydd blodau gwyllt ledled y Fwrdeistref Sirol; nodi adnoddau priodol i gefnogi hyn	IE	Y cynllun a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno Nodwyd yr adnoddau	Blwyddyn 2	Tua 2 flynedd	Amgylcheddol a Thechnegol Cynllunio Asedau	Cost Canolig / Budd Uchel

Sicrhau bod polisïau a chanllawiau cyfredol a'r dyfodol yn cael eu hategu gan ymrwymiad i ddatgarboneiddio; a bod datblygwyr/ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofynion, ac yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio	IE	Dangosyddion Monitro'r CDLl ar gyfer datblygiadau adnewyddadwy a charbon isel	Blwyddyn 1	Rhaglen barhaus o tua 6 blynedd	Cynllunio	Cost Canolig / Budd Uchel

Caffael

Mae'r Cyngor yn caffael nifer sylweddol o nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn, ac o ganlyniad mae'n hanfodol bod ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio'n cael ei hadlewyrchu yn y trefniadau prynu a chontractio sydd gennym.

Bydd ein gweithgareddau'n canolbwyntio ar:

- **Sicrhau bod prosesau caffael yn ystyried y rhaglen datgarboneiddio yn briodol** - trwy ymgysylltiad cynnar â'r farchnad, datblygu manylebau priodol, a dyfarnu contractau.
- **Gwella ein prosesau rheoli contractau i fonitro, rheoli ac adrodd ar berfformiad gweithgareddau ein cadwyn gyflenwi'n weithredol** – datblygu a monitro metrigau ystyrlon a DPA i alluogi rheolaeth effeithio ein cadwyn gyflenwi yn nhermau perfformiad newid hinsawdd.
- **Gwella dealltwriaeth y rhaglen ddatgarboneiddio gyda'n cadwyn gyflenwi gyfredol a'r dyfodol** – drwy gyfathrebu'n glir a gweithio'n gydweithredol i nodi datrysiadau a chefnogi eraill i wella eu perfformiad datgarboneiddio eu hunain.

Camau gweithredu	Cyswllt i Gynllun y Cyngor	Mesurau llwyddiant arfaethedig	Dyddiad cychwyn targed	Amcangyfrif o hyd	Adrannau/partneriaid allweddol	Cost / Budd
Adeiladu i'r broses gaffael, cyfres o gwestiynau/gofynion lleihau carbon safonol ar gyfer pob contract a chyflenwr	IE	Y gofynion a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt Nifer y contractau a ddyfarnwyd sy'n cydymffurfio gyda chyfres o ofynion datgarboneiddio	Blwyddyn 1	Parhaus am oes y cynllun	Cyllid Pob adran	Cost Isel / Budd Canolig
Adolygu trefniadau rheoli contractau cyfredol i sicrhau bod cyfraniad i ddatgarboneiddio'n cael ei ystyried	IE		Blwyddyn 1	Rhaglen barhaus i sicrhau bod	Cyllid Pob adran	Cost isel / Budd Canolig

				hyn yn dod yn arfer safonol		
Datblygu cynllun cyfathrebu/ymgysylltu ar gyfer rhannu ein hymrwymiadau datgarboneiddio gyda chyflenwyr	IE	Cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu a'i gyhoeddi	Blwyddyn 1	Parhaus am oes y cynllun	Cyllid	Cost Isel / Budd Isel
Adolygu contractau presennol, ymarferion caffael i nodi egwyddorion allweddol y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt, ac yn glynu atynt ymhob penderfyniad caffael (e.e. ni ddefnyddir plastig untro)	IE	Yr ymrwymiadau allweddol a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt	Blwyddyn 1	Parhaus am oes y cynllun	Uwch Dîm Arweinyddiaeth Aelodau Etholedig Pob adran y Cyngor	Cost Isel / Budd Canolig
Gweithio mewn partneriaeth gydag eraill (e.e. Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a phartneriaid rhanbarthol) i gefnogi trefniadau ar y cyd ar gyfer caffael lle bydd hyn yn ychwanegu gwerth, ac yn lleihau allyriadau carbon	IE		Blwyddyn 1 (gyda gwaith eisoes yn mynd rhagddo)	Parhaus am oes y cynllun	Cyllid Partneriaid rhanbarthol Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol	Cost isel / Budd Canolig